Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

# Pecyn Llysgenhadon CPC

## Hawliau Plant

Mae gan bob plentyn a pherson ifanc 42 o hawliau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

Mae'r 42 hawl yma yn sicrhau rydych chi'n tyfu lan yn hapus, yn iach ac yn ddiogel.

Mae gennych chi yr hawl i fod yn ddiogel, i dderbyn addysg ac yr hawl i gael dweud eich dweud.

Os ydych chi eisiau dysgu mwy am eich hawliau gallwch chi [wylio'r fideo yma.]








## Comisiynydd Plant Cymru

- **Rocio Cifuentes** yw Comisiynydd Plant Cymru.
- Dechreuodd Rocio ei swydd ym mis Ebrill 2022, a bydd hi'n Gomisiynydd Plant am saith mlynedd.
- Ei swydd hi yw gwrando ar y pethau sy'n bwysig i chi a dweud wrth eraill beth ddylen nhw ei wneud i wneud bywydau plant yn well.She has had lots of different jobs, including running a charity and being a teacher.
- Mae hi'n siarad Sbaeneg a Saesneg ac yn dysgu Cymraeg.

*Gwyliwch **y fideo yma** i glywed Rocio yn ateb rhai o'ch cwestiynau.*

# Eich rôl fel Llysgenhadon Hawliau

**Mae gan lysgenhadon dair rôl. Rydyn ni wedi meddwl am rai syniadau a allai eich helpu i'w cyflawni. Gallwch chi hefyd feddwl am syniadau eich hun!**







## 1

**Dywedwch wrth blant / pobl ifanc arall yn eich ysgol am Gomisiynydd Plant Cymru.**

Dyma rai pethau y gallech chi eu gwneud i ddweud wrth eraill yn eich ysgol am y Comisiynydd:

- Defnyddiwch y cyflwyniad Pwerbwynt yma i gyflwyno gwasanaeth
- Dangoswch y fideo yma o'r Comisiynydd yn cynnal sesiwn Holi ac Ateb
- Defnyddiwch y gêm yma am bwerau'r Comisiynydd
- Defnyddiwch y poster yma i ddysgu eraill am y Comisiynydd

## 2

**Dywedwch wrth blant/pobl ifanc eraill yn eich ysgol am y CCUHP**

Dyma rai pethau y gallech chi eu gwneud i ddweud wrth eraill am y CCUHP:

- Rhowch bosteri hawliau i fyny neu gwnewch rhai eich hun
- Rhannwch y cyflwyniad Pwerbwynt yma
- Defnyddiwch ein cardiau symbolau
- Defnyddiwch ein cardiau eisiau/angen
- Defnyddiwch ein gweithgaredd Diemwnt 9
- Defnyddiwch ein posteri Hapus, Iach a Diogel

3



### Cymerwch ran yn Mater y Mis!

Bob mis mae tîm Comisiynydd Plant Cymru yn gofyn rhai cwestiynau i chi am bwnc arbennig.

Mae Mater y Mis yn bwysig iawn i'n gwaith; mae'n helpu ni i ddweud wrth oedolion sy'n gwneud penderfyniadau beth mae pobl ifanc yng Nghymru yn ei feddwl.

Fel Llysgennad Hawliau gallwch rannu Mater y Mis yn eich ysgol a gofyn i ddosbarthiadau eraill i gwblhau. Mae gan Mater y Mis weithgaredd dilynol y gallwch gymryd rhan ynddo hefyd.

## Cysylltwch

Gallwch roi gwybod i ni am eich gwaith hawliau drwy e-bostio: **post@complantcymru.org.uk**

Neu gallwch rannu eich gwaith ar gyfryngau cymdeithasol gyda ni:

**@childcomwales**

**Children’s Commissioner for Wales**

Cofiwch i dagio ni mewn pethau ar gyfryngau cymdeithasol am eich gwaith gwych hawliau fel y gallwn eu rhannu! Ein cyfeiriad ar gyfer pob cyfryngau cymdeithasol yw:

@childcomwales



Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

## Adnoddau defnyddiol/poblogaidd

**POSTER DEALL EICH HAWLIAU**



**CARDIAU SYMBOLAU**



**MATER Y MIS**



**PWERBWYNT GWEITHGAREDDAU HAWLIAU**

